Hawdd ei Ddarllen

# Taliadau Uniongyrchol



**Gall Taliadau Uniongyrchol eich helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnoch chi i fyw'r bywyd rydych chi ei eisiau.**

# Pwy all wneud Taliadau Uniongyrchol?



- Oedolion, plant a phobl ifanc, a gofalwyr di-dâl.

- Dim ond ar ôl i chi gael asesiad gan Gyngor Bro Morgannwg y gallwch chi gael taliadau uniongyrchol.



- Gall y rhan fwyaf o bobl sy'n cael cymorth gan ofal cymdeithasol gael taliadau uniongyrchol.



- Os na allwch chi gael taliad uniongyrchol, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn dweud wrthoch chi pam.

# Beth yw taliadau uniongyrchol?

- Mae Taliadau Uniongyrchol yn symiau o arian sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i chi gan Gyngor Bro Morgannwg fel y gallwch chi ddewis, trefnu a thalu am y gofal a'r cymorth yn eich cynllun cymorth.




- Gallwch chi ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i ddiwallu eich anghenion asesedig. Nid oes angen i chi gael taliad uniongyrchol, a gellir diwallu eich anghenion asesedig mewn ffyrdd eraill. Gall eich gweithiwr cymdeithasol helpu.




## Sut alla i gael Taliad Uniongyrchol?




Byddwn ni'n edrych ar eich anghenion a bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Tîm Taliadau Uniongyrchol a fydd yn siarad â chi am yr hyn sy'n bwysig i chi.



Byddwn ni'n eich cynnwys pan fyddwn ni'n ceisio gweld pa gymorth i'w roi i chi. Efallai y byddwn ni'n cynnig eiriolwr i chi, sy'n rhywun i'ch helpu i wneud cais am Daliad Uniongyrchol.

# Ar gyfer beth y gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol?

Cyn belled â'i fod yn eich cynllun cymorth, gallwch chi wario'r arian i gael yr help a'r offer y mae eich cynllun cymorth yn dweud sydd ei angen arnoch chi. Er enghraifft:



- I fynd i'r gwaith



- I ymuno â chlwb



- I gymryd seibiant



- I gymryd cwrs neu fynd i'r coleg



- I dalu rhywun i'ch cynorthwyo gartref (gelwir y rhain yn 'Gynorthwywyr Personol)

# Ar gyfer beth na ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol?



- Talu aelod o'r teulu sy'n byw gyda chi i ddarparu gofal, oni bai bod y cyngor yn dweud ei fod yn iawn



- Biliau’r cartref



- Cymorth a gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu talu gan y cyngor




- Costau tai, fel rhent



- Gwasanaethau iechyd a meddygol

# Beth sydd angen i mi ei wneud?

1. Bydd angen i chi gael asesiad gan Gyngor Bro Morgannwg i wirio a allwch chi gael gwasanaethau.



2. Os gallwch chi gael gwasanaethau, byddwn ni'n ysgrifennu Cynllun Cymorth i chi. Bydd y cynllun yn dangos i chi beth sy'n mynd i ddigwydd a phryd mae'n mynd i ddigwydd.




3. Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi a allwch chi gael y Taliadau Uniongyrchol a phryd y byddwch chi'n eu cael.




4. Bydd yn rhaid i chi sefydlu cyfrif banc ar wahân ar gyfer eich Taliadau Uniongyrchol. Gallwn ni gael rhywun i'ch helpu chi gyda hyn.



5. Bydd yn rhaid i ni wneud yn siŵr eich bod yn defnyddio'r arian yn iawn, felly bydd angen i chi gadw cofnod o'r hyn rydych chi'n gwario eich Taliadau Uniongyrchol arno. Os gallwch chi, bydd angen i chi gadw derbynebau am yr arian rydych chi'n ei wario.

# Nid oes rhaid i chi wneud hyn ar eich pen eich hun!

**Gallwch chi gael help gan:**

- Gweithiwr gofal cymdeithasol neu gynghorydd Taliad Uniongyrchol




- Teulu neu ffrindiau

- Gweithiwr allweddol

- Eiriolwyr, fel Llais neu MIND